**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Deputy Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

27 Ionawr 2021

Annwyl John

Yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 21 Ionawr i drafod yr Gyllideb Ddrafft 2021-22, cytunais i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) a'r galw a ragwelwyd ar y gronfa.

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) yn gronfa sy'n seiliedig ar alw, ac felly mae angen monitro'r galw a'r gwariant yn ddyddiol.

Ym mis Mawrth 2019 roedd 12,457 o hawliadau ar y gronfa. Y flwyddyn ddiweddarach, a mis cyntaf recordio o Covid-19, cyrhaeddodd ceisiadau ym Mawrth 2020 i 24,365, gan godi i uchafbwynt o 35,250 ym mis Hydref 2020.

Ym mis Chwefror 2020, yn union cyn dechrau'r pandemig roedd gwariant misol ar y gronfa yn £1.05m. Cyrhaeddodd hyn ychydig yn is na £2.5m ym mis Tachwedd 2020 cyn gostyngiad bach ym mis Rhagfyr (mae effaith dymhorol hysbys dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd).

Mae'r gwariant a ragwelir ar y gronfa ar gyfer 2020-21 yn debygol o fod yn fwy na £27m yn erbyn cyllideb wreiddiol o tua £12.7m. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £13.9m yn ychwanegol ar gyfer y DAF mewn ymateb i argyfwng Covid-19.

Mae'n anodd rhagweld y galw yn ystod 2021-22 gydag unrhyw hyder, heb unrhyw ffordd o wybod ar ba bwynt, os o gwbl, y bydd y galw'n dechrau lefelu neu ostwng.

O ran yr ystyriaethau ar gyfer cymorth pellach, mae amrywiaeth o opsiynau y tu hwnt i ddiwedd mis Mawrth 2020 (pan fydd hyblygrwydd rheolau Covid-19 presennol yn dod i ben) yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gyda'r nod o liniaru effaith barhaus y pandemig presennol,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

tra'n mynd i'r afael ar yr un pryd ag achosion sylfaenol tlodi, gwella cadernid ariannol, a lleihau dibyniaeth ar y gronfa.

**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government